Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau i ymgeiswyr sy’n dymuno cael eu dynodi’n sefydliadau at ddibenion Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG7498 ISBN digidol: 978 1 83876 000 7

## Cefndir

Dan y system reoleiddio y darperir ar ei chyfer gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") mae angen i sefydliadau a darparwyr eraill sydd am i'w cyrsiau addysg uwch gael eu dynodi'n awtomatig gan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr at ddibenion cymorth statudol i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru gael cynllun ffioedd a mynediad ar waith a gymeradwyir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Mae adran 2 Deddf 2015 yn nodi y gall corff llywodraethu sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen wneud cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am gymeradwyaeth y Cyngor hwnnw ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad arfaethedig sy'n ymwneud â'r sefydliad.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau nad yw'r system reoleiddio newydd yn atal ymgeisydd rhag cyflwyno cynllun ffioedd a mynediad i'w gymeradwyo gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar sail ei gyfansoddiad. Yn hytrach, bydd y pwyslais ar gadarnhau a yw'r ymgeisydd yn diwallu'r gofynion yn adran 2(3) Deddf 2015, h.y. bod y darparwr yn elusen sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru.

O ystyried ystyr arferol "sefydliad", mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o ddarpar ymgeiswyr ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad yn cael eu hystyried yn sefydliadau. Er enghraifft, mae prifysgolion a sefydlwyd gan Siarter Frenhinol, Corfforaethau Addysg Uwch a Chorfforaethau Addysg Bellach oll yn sefydliadau at ddibenion Deddf 2015. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol efallai na fyddai rhai cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch yn eu hystyried eu hunain yn sefydliadau, ac efallai na fyddai Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn eu hystyried yn sefydliadau chwaith. Gallai rhai darparwyr, er enghraifft, fod yn gwmnïau penodol sy'n gyfyngedig drwy warant sy'n darparu addysg uwch.

Mae adran 3 Deddf 2015 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi yn "sefydliad" ddarparwr sy'n elusen ac sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac na fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn sefydliad at ddibenion y Ddeddf. Efallai y bydd y darparwyr hynny nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn "sefydliad" at ddibenion adran 2, neu sy'n ansicr ynghylch eu statws fel "sefydliad", serch hynny'n dymuno i'w cyrsiau gael eu dynodi gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr (at ddibenion sicrhau cymorth i fyfyrwyr gan Weinidogion Cymru). Os na fydd darparwr yn ei ystyried ei hun yn sefydliad, efallai y bydd yn dymuno cyflwyno cais i gael ei ddynodi'n sefydliad at ddibenion gwneud cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am gynllun ffioedd a mynediad. Mae'r grym hwn i ddynodi yn fodd i sicrhau y gellir osgoi unrhyw amheuon ynghylch a yw darparwr yn "sefydliad" at ddibenion gwneud cais am gymeradwyaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer cynllun ffioedd a mynediad.

Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar ddynodiad dan adran 3 Deddf 2015 ar ôl ystyried cais a wneir gan y darparwr dan sylw[1]. Unwaith y bydd darparwr wedi'i ddynodi'n "sefydliad", gall gyflwyno cais i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad ar ei gyfer dan adran 2 Deddf 2015. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch y gofynion o ran ceisiadau ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad, ac i ganiatáu digon o amser i Weinidogion Cymru ystyried cais am ddynodiad at ddibenion adran 3 Deddf 2015. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ceisio prosesu ceisiadau a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru cyn pen 6 wythnos ar ôl cael y wybodaeth sy'n ofynnol. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach ynghylch y broses o gyflwyno cais am gynlluniau ffioedd a mynediad drwy anfon ebost i'r cyfeiriad canlynol: cyngorrheoleiddio@hefcw.ac.uk

**Mae atodiad yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r darparwyr ei chynnwys yn eu ceisiadau ar gyfer dynodiad a'r broses y bydd eu ceisiadau'n mynd drwyddi.**

## Tynnu dynodiad yn ôl

Gellir tynnu dynodiad yn ôl trwy i Weinidogion Cymru roi hysbysiad ysgrifenedig i'r darparwr dan sylw. Rhaid i'r hysbysiad nodi'n benodol y rhesymau dros dynnu'r dynodiad yn ôl a'r dyddiad y caiff y dynodiad ei dynnu'n ôl. Wrth benderfynu a ddylid tynnu dynodiad yn ôl, rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a yw adran 3(2) Deddf 2015 yn berthnasol i'r darparwr o hyd (h.y. mae'n elusen sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru).

Os bydd dynodiad dan adran 3(1) Deddf 2015 wedi'i dynnu'n ôl, dylid parhau i drin darparwr addysg uwch yn sefydliad at ddibenion adrannau 10 i 14 ac adran 26 Deddf 2015 (sy'n ymwneud â therfynau ffioedd, cyfarwyddydau cydymffurfio ac ad-dalu, cydymffurfio â gofynion cyffredinol ynghylch cynlluniau ffioedd a mynediad, dilysrwydd contractau ac ansawdd yr addysg).

[1] Rheoliadau Addysg Uwch (Dynodi Darparwyr Addysg Uwch) (Cymru) 2015 yw'r rheoliadau sy'n darparu ar gyfer y modd y cyflwynir ceisiadau dan adran 3 Deddf 2015: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1497/contents/made/welsh

# Atodiad: Proses ymgeisio ar gyfer dynodi darparwr yn sefydliad at ddibenion Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (“Deddf 2015”)

*Mae’r wybodaeth ganlynol yn nodi’r hyn y mae’n rhaid i’r ymgeisydd ei gyflwyno yn ei gais i gael ei ddynodi gan Weinidogion Cymru dan adran 3 Deddf 2015.*

## 1. Gwybodaeth gyffredinol

**Rhaid** i gais gael ei gyflwyno’n **ysgrifenedig** a **rhaid** iddo gynnwys:

(a) enw a phrif gyfeiriad yr ymgeisydd; ac
(b) unrhyw enwau eraill y mae’r ymgeisydd yn eu defnyddio i weithredu.

## 2. Statws elusennol

**Rhaid** i gais gynnwys gwybodaeth ynghylch statws elusennol ymgeisydd; **rhaid** i hynny **naill ai** gynnwys:

(a) rhif cofrestru elusen yr ymgeisydd ac enw a chyfeiriad y rheoleiddiwr elusennau y mae’r ymgeisydd wedi’i gofrestru ag ef[2]; **neu**

(b) os nad yw’r ymgeisydd wedi’i gofrestru â rheoleiddiwr elusennau, dylid nodi’r rheswm pam nad oes angen cofrestru â rheoleiddiwr elusennau (er enghraifft oherwydd bod yr ymgeisydd yn elusen a gaiff ei hesgusodi neu’i heithrio). Os nad yw’r ymgeisydd wedi’i gofrestru â rheoleiddiwr elusennau, **rhaid** i’r ymgeisydd gynnwys copi o ddogfen lywodraethu’r ymgeisydd[3].

## 3. Darparu addysg uwch yng Nghymru

**Rhaid** i’r wybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn cais gynnwys y canlynol:

(a) disgrifiad o’r addysg uwch a ddarperir gan yr ymgeisydd yng Nghymru;

(b) disgrifiad o’r dyfarniad a allai gael ei roi i unigolyn o ganlyniad i’r addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan yr ymgeisydd;

(c) nifer yr unigolion yng Nghymru sy’n ymgymryd â’r addysg uwch honno ar ddyddiad cyflwyno’r cais;

(ch) y man yng Nghymru lle darperir addysg uwch;

(d) cyfeiriad unrhyw wefan a gynhelir gan yr ymgeisydd sy’n ymwneud â’r addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan yr ymgeisydd hwnnw.

[2] Mae “rheoleiddiwr elusennau” yn golygu y Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau’r Alban neu Gomisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon.
[3] Yn achos darparwr addysg uwch a gaiff ei redeg gan gwmni, dylid darparu memorandwm ac erthyglau cymdeithasu’r cwmni; mewn unrhyw achos arall, dylid darparu dogfen sy’n egluro cyfansoddiad y darparwr addysg uwch a’r modd y caiff ei redeg.

**Rhaid** cyflwyno, gyda'r cais, gopi o unrhyw brosbectws a gyhoeddwyd gan yr ymgeisydd sy'n ymwneud â'r addysg uwch a ddarperir yng Nghymru gan yr ymgeisydd.

## 4. Cyflwyno cais

Dylid anfon y cais, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol gofynnol, i'r cyfeiriad canlynol:
Yr Is-adran Addysg Uwch
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebost: CeisiadauAU.HEApplications@llyw.cymru

Gellir cael gwybodaeth bellach drwy anfon ebost i'r cyfeiriad uchod.
Mae ffurflen gais ar gael ar
https://beta.llyw.cymru/dynodi-sefydliadau-addysg-uwch-canllawiau-gwneud-cais